Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

## Hawliau tramwy

Mawrth 2011

## Beth yw hawl dramwy?

Prifforddd[1] y gall unrhyw un ei defnyddio unrhyw bryd yw **hawl dramwy gyhoeddus.** Fel arfer, bydd hawl dramwy'n mynd rhwng dwy briffordd e.e. hawl i deithio rhwng ffordd a llwybr troed cyhoeddus etc. Bydd arwydd llwybr cyhoeddus i'w weld fel arfer mewn cyffordd rhwng hawl dramwy gyhoeddus a ffordd.

Mae awdurdodau priffyrdd lleol yn cadw **map diffiniol**, sy'n gofnod cyfreithiol o'r hawliau tramwy cyhoeddus yn eu hardaloedd. Os yw llwybr wedi'i nodi ar y map, mae'n dystiolaeth gyfreithiol, neu bendant, fod gan y cyhoedd yr hawl i deithio ar hyd y llwybr hwnnw ar ddyddiad y map perthnasol (a bod yr hawl honno'n parhau oni chafwyd newidiadau a awdurdodwyd yn gyfreithiol). Fodd bynnag, os nad yw llwybrau wedi'u nodi ar y map diffiniol, nid yw hynny'n dystiolaeth nad oes gan y cyhoedd hawliau drostynt, gan ei bod yn bosibl bod angen diweddaru'r map[2].

Mae **hawl dramwy breifat** yn caniatáu i unigolyn, neu unrhyw grŵp ac eithrio'r cyhoedd, gael mynediad i nodwedd benodol e.e. er mwyn cyrraedd tŷ neu gae.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn cadw cofnod o'r holl dir cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Gellir prynu copïau swyddogol o'r Gofrestr Teitlau a'r Cynlluniau Teitl [3] ganddi. Mae'r **Gofrestr Teitlau** yn cynnwys disgrifiad o'r eiddo a gwybodaeth arall, ond mae hefyd yn cyfeirio at unrhyw hawliau tramwy a hawddfreintiau eraill sy'n effeithio ar yr eiddo[4].

## Beth yw'r gwahanol fathau o hawliau tramwy cyhoeddus?

Mae pedwar math o hawl dramwy gyhoeddus yng Nghymru a gellir eu defnyddio mewn ffyrdd gwahanol, yn ôl y mathau o hawl dramwy ydynt:

- **Llwybrau troed** – hawl dramwy ar droed yn unig. Llwybrau troed yw 79 y cant o hawliau tramwy Cymru.
- **Llwybrau ceffyl** – ar gyfer cerddwyr, pobl sy'n marchogaeth, a beicwyr. Mae 15 y cant o hawliau tramwy cyhoeddus Cymru yn llwybrau ceffyl.

---

[1] Nid oes diffiniad statudol o briffordd, dim ond diffiniad yn ôl y gyfraith gyffredin. Mae'r diffiniad hwnnw'n gwbl glir, sef llwybr y mae gan y cyhoedd yr hawl i deithio ac i ail-deithio ar ei hyd yw priffordd. Rhaid i'r cyhoedd fedru'i defnyddio fel hawl ac nid drwy oddefiad na thrwy drwydded.
[2] O dan *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000*, mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod priffyrdd i ddiweddaru'i fap diffiniol yn rheolaidd.
[3] Yn hanesyddol, yr enw ar y Gofrestr Teitlau a'r Cynlluniau Teitl oedd Gweithredoedd Eiddo.
[4] Gwefan y Gofrestrfa Tir, ***Title Deeds***, (Saesneg yn unig) [fel ar 22 Chwefror 2011]

- Cilffyrdd – mae 6 y cant o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn gilffyrdd ac maent yn cynnwys:
    - **Cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig** – ar gyfer traffig o bob math, gan gynnwys cerbydau, ond i'w defnyddio'n bennaf i'r un diben â llwybrau troed a llwybrau ceffyl.
    - **Cilffyrdd cyfyngedig** – ar agor i bob math o draffig ac eithrio cerbydau modur[5].

## Pwy sy'n gyfrifol am hawliau tramwy cyhoeddus?

Mae **awdurdodau priffyrdd**[6] **a meddiannwyr tir**[7] yn rhannu'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod hawliau tramwy cyhoeddus yn cael eu cadw ar agor. O dan *Ddeddf Priffyrdd 1980*[8] mae gan **awdurdodau priffyrdd ddyletswydd i ddiogelu ac i gynnal a chadw** hawliau tramwy cyhoeddus at ddefnydd y cyhoedd. Mae ganddynt ddyletswydd hefyd i sicrhau nad oes rhwystrau ar hawliau tramwy cyhoeddus ac nad ydynt yn cael eu cau. Os yw person yn credu nad yw awdurdod priffyrdd yn ymgymryd â'r ddyletswydd hon, gall gyflwyno hysbysiad i'r awdurdod priffyrdd yn gofyn iddo symud y rhwystr. Os nad yw'r awdurdod lleol yn gwneud hynny, gall yr unigolyn sy'n cyflwyno'r hysbysiad ofyn am orchymyn llys ynadon i'w orfodi i weithredu. Dim ond rhai mathau arbennig o rwystrau sydd wedi'u cynnwys yn y darpariaethau hyn. Darpariaethau ar gyfer llwybrau troed, llwybrau ceffyl a chilffyrdd cyfyngedig ydynt, ynghyd â llwybrau a nodir ar fap diffiniol fel cilffyrdd cyfyngedig neu gilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi dirprwyo'u pwerau dros hawliau tramwy i awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae gan gynghorau cymuned hefyd bwerau disgresiwn sy'n caniatáu iddynt gynnal a chadw llwybrau troed neu lwybrau ceffyl, a gallant ofyn i'r awdurdod priffyrdd ymgymryd â'i ddyletswydd i symud rhwystrau.

## Sut y gellir newid hawliau tramwy cyhoeddus?

Mae *Deddf Priffyrdd 1980* yn rhoi'r pŵer i **awdurdodau priffyrdd greu, dileu neu ddargyfeirio llwybr troed neu lwybr ceffyl**, gan wneud hynny, fel arfer, drwy wneud **gorchymyn llwybr cyhoeddus**. Hefyd, mae *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990* yn rhoi'r pŵer i awdurdodau ddileu llwybr troed neu lwybr ceffyl, neu i'w ddargyfeirio'n barhaol neu dros dro, a hynny er mwyn datblygu'r tir y mae'r llwybr yn mynd drwyddo. Nid oes modd dileu llwybr troed na llwybr ceffyl oni ellir dangos nad oes angen y llwybr bellach. Wrth benderfynu ar hyn, rhaid i awdurdod ystyried pa mor aml y bydd y cyhoedd yn debygol o'i ddefnyddio os na chaiff ei ddileu, a pha effaith y byddai penderfyniad i ddileu'r llwybr yn ei chael ar y tir y mae'r llwybr yn mynd drwyddo.

---

[5] Gwefan Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mwynhau Cefn Gwlad, ***Hawliau Tramwy Cyhoeddus***, [fel ar 21 Chwefror 2011]
[6] Yng Nghymru, y 22 awdurdod unedol yw'r awdurdodau priffyrdd. (Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer rhwydwaith y cefnffyrdd.)
[7] Y tenant neu'r perchen-feddiannydd yw'r meddiannydd fel arfer.
[8] ***Deddf Priffyrdd 1980***, (pennod 66) (Saesneg yn unig

Gall cynigion i newid y rhwydwaith hawliau tramwy godi o ganlyniad i geisiadau a gyflwynir i'r awdurdod lleol (er enghraifft, gan bobl leol, pobl sy'n defnyddio'r llwybrau, ffermwyr neu dirfeddianwyr) neu gall yr awdurdod ei hun gynnig newidiadau[9].

Rhaid i unrhyw **wrthwynebiad i orchymyn llwybr cyhoeddus** fod yn berthnasol i'r rhesymau dros wneud y gorchymyn h.y. rhaid seilio gwrthwynebiad i orchymyn i ddileu hawl dramwy gyhoeddus ar y ffaith bod y cyhoedd yn parhau i ddefnyddio'r llwybr. Os nad oes neb yn gwrthwynebu'r gorchymyn, gall yr awdurdod lleol ei hun gadarnhau'r gorchymyn. Os bydd gwrthwynebiad, fodd bynnag, caiff y pŵer i gadarnhau'r gorchymyn ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru i'w benderfynu. Yr **Arolygiaeth Gynllunio**[10] fydd yn ymchwilio i'r rhan fwyaf o'r gorchmynion hyn, a bydd yn cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru. Gall yr Arolygydd Cynllunio adolygu unrhyw wrthwynebiad drwy gynnal ymchwiliad cyhoeddus, drwy gynnal gwrandawiad neu drwy gyfrwng gohebiaeth ysgrifenedig.

## Beth yw'r gwahanol fathau o hawliau tramwy cyhoeddus?

Diben hawl dramwy breifat yw caniatáu i unigolyn, neu unrhyw grŵp ac eithrio'r cyhoedd, gael mynediad i nodwedd benodol e.e. er mwyn cyrraedd tŷ neu gae.

Mae gwahanol fathau o hawliau tramwy i'w cael: hawliau tramwy drwy **drwydded**, **'ecwiti syml'**, neu **hawddfraint**.

### Trwyddedau ac ecwitïau syml

O dan amodau trwydded, gall **tirfeddianwyr roi caniatâd i rai pobl fynd ar eu tir at ddibenion penodol**. Yn gyffredinol, mae modd i'r person sy'n rhoi'r drwydded ei thynnu'n ôl hefyd er y gall y llysoedd, o dan rai amgylchiadau, gydnabod a gorfodi trwyddedau na ellir eu diddymu sy'n gysylltiedig â buddiannau perchnogol nes caiff y pwrpas y rhoddwyd y drwydded ar ei gyfer ei gyflawni (e.e. rhoi caniatâd i adeiladwyr fynd ar dir cymydog at ddibenion gwaith adeiladu). Mae'r llysoedd wedi cydnabod amrywiaeth eang o **hawliau a buddiannau perchnogol a lled-berchnogol** mewn perthynas â thir, a gellir eu **gorfodi yn ôl egwyddorion ecwiti**[11]. Gellir gorfodi 'ecwitïau syml' os cafwyd cytundeb anffurfiol, cynrychiolaeth gan barti sydd wedi peri i barti arall weithredu mewn modd sy'n anfanteisiol iddo (gan ddibynnu arno), cydsyniad ac estopel[12].

### Hawddfreintiau

Mae **hawddfraint wedi'i gysylltu â darn penodol o dir** yn hytrach na'r unigolyn neu;r unigolion sy'n berchen ar y tir neu sy'n ei feddiannu. Hawl yw hawddfraint sy'n rhoi budd i un darn o dir (sef y **rhandir trech**) ac sy'n caniatáu i'r sawl sydd â'r hawl i ddefnyddio'r tir wneud gweithredoedd penodol ar ddarn cyfagos o dir (sef y **rhandir caeth**). Gall

---

[9] Gwefan Arolygiaeth Gynllunio Cymru, ***Hawliau Tramwy***, [fel ar 21 Chwefror 2011]
[10] Un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth y DU yw'r Arolygiaeth Gynllunio. Mae'n atebol i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn Lloegr, ac i Lywodraeth Cymru yng Nghymru. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn gweithredu fel corff diduedd sy'n penderfynu ar ochmynion hawliau tramwy a wneir gan gynghorau lleol (neu awdurdodau perthnasol eraill) os ceir gwrthwynebiad iddynt neu os ceir sylwadau arnynt, neu os bydd angen eu haddasu.
[11] Ecwiti yw'r enw a roddir ar set o egwyddorion cyfreithiol, a hynny mewn awdurdodaethau sy'n dilyn y gyfraith gyffredin. Maent yn ychwanegol at reolau caeth y gyfraith pe bai perygl i'r rheini gael eu cymhwyso'n rhy llym.
[12] Mae'r rhan fwyaf o estopelau'n diogelu unigolion neu grwpiau rhag cael eu niwedio oherwydd gweithred, datganiad neu addewid gan rywun arall, pan fydd gweithredoedd neu ddatganiadau diweddarach yn tanseilio neu'n mynd yn groes i'r hyn a ddywedwyd, a addawyd neu a awgrymwyd yn wreiddiol.

**hawddfraint** fod naill ai'n '**gadarnhaol'** (e.e. yr hawl i ddefnyddio llwybr dros dir) neu'n '**negyddol**' (e.e. yr hawl i gael golau).

Mae'r Uchel Lys wedi disgrifio'r nodweddion sy'n hanfodol neu'r gofynion cyfreithiol mewn cysylltiad â phob math o hawddfraint:

- rhaid cael rhandir trech a chaeth (h.y. rhaid cael tir sydd â budd ynghlwm wrth yr hawl, a thir sydd â baich ynghlwm wrth yr hawl);
- rhaid i'r hawl hwyluso'r rhandir trech (h.y. rhaid iddo fod o fudd i'r tir yn hytrach na'n fudd personol i'r tirfeddiannwr unigol) ;
- rhaid i'r rhandiroedd trech a chaeth fod yn eiddo i bobl wahanol;
- ni chaiff hawl dros dir ddod yn hawddfraint oni bai bod modd rhoi'r hawl yn gyfreithlon (h.y. rhaid cael pobl sy'n gallu rhoi'r hawl a rhaid i'r hawl fod yn ddigon penodol). [13]

Mae gwahanol ddulliau o greu hawddfraint:

- **drwy ganiatâd datganedig** (h.y. mae perchennog y tir yn datgan ei ganiatâd i bobl ddefnyddio'r tir e.e. yn y weithred drosglwyddo pan gaiff y tir ei werthu). Gellir defnyddio egwyddor estopel perchnogol y gyfraith gyffredin i weithredu addewid llafar i greu hawddfraint, a gall y llysoedd orfodi hyn.
- **drwy ganiatâd ymhlyg** (h.y. mae'r caniatâd yn ymhlyg yn y trawsgludiad/y weithred drosglwyddo, naill ai drwy egwyddorion y gyfraith gyffredin neu drwy roi statud ar waith).
- **drwy bresgripsiwn** (h.y. cael yr hawl gan dirfeddiannwr ar ôl dangos bod llwybr wedi'i ddefnyddio'n gyson am gyfnod penodol). Gall hyn ddigwydd mewn gwahanol ffyrdd (presgripsiwn o dan y gyfraith gyffredin[14]; athrawiaeth caniatâd diweddar a gollwyd[15]; a phresgripsiwn statudol o dan *Ddeddf Presgripsiwn 1832*[16][17]). Mae dwy egwyddor yn gyffredin i bresgripsiynau o bob math:
    - rhaid i'r defnydd fod 'fel hawl' (gan fod y presgripsiwn wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth y pasiwyd yr hawl yn ddatganedig neu'n ymhlyg i'r tirfeddiannwr rywdro yn y gorffennol); a
    - rhaid i'r defnydd fodloni'r wireb gyfreithiol *nec vi, nec clam, nec precario* – h.y. heb ddefnyddio grym, heb ei arfer yn gyfrinachol a heb ganiatâd y tirfeddiannwr.

[13] Achos *Re: Ellenborough Park* [1956] Ch. 131.
[14] Rhagdybir bod y llwybr yn cael ei ddefnyddio 'er cyn cof' (sy'n golygu 1189 yn ôl y gyfraith).
[15] Mae'r athrawiaeth 'caniatâd diweddar a gollwyd' yn atodol i bresgripsiwn y gyfraith gyffredin drwy ganiatáu presgripsiwn os oes tystiolaeth bod y llwybr wedi cael ei dddefnyddio'n ddi-dor dros yr 20 mlynedd diwethaf.
[16] ***Deddf Presgripsiwn 1832***, pennod 71.
[17] Mae *Deddf Presgripsiwn 1832* yn creu dau gyfnod ar gyfer caael hawddfraint drwy bresgripsiwn: cyfnod 'byr' o 20 mlynedd a chyfnod 'hir' o 40 mlynedd o ddefnydd di-dor. Rhaid i gyfnod y 'defnydd' gynnwys mwynhad gwirioneddol heb ymyrraeth am y cyfnod llawn o 20 mlynedd (h.y. os ceir tystiolaeth sy'n dangos na ddefnyddiwyd yr hawddfraint am flwyddyn neu fwy, bydd y cais yn methu). Os ceir hawl i ddefnyddio llwybr ar y sail y'i defnyddiwyd yn ddi-dor am 40 o flynyddoedd, mae'r hawl honno'n absoliwt ac yn anniddymadwy (oni chafwyd caniatâd ysgrifenedig neu drwy weithred).

## Pwy sy'n gyfrifol am hawliau tramwy preifat?

Os bydd angen trwsio llwybr sy'n destun hawl dramwy breifat ond sydd heb gytundeb o ran ei gynnal a'i gadw[18], os nad yw perchennog y rhandir caeth yn fodlon trwsio'r llwybr neu os nad yw'n gallu gwneud hynny (neu os nad yw'r perchennog yn hysbys), caiff perchennog y rhandir trech (y mae cyflwr gwael y llwybr yn creu anhwylustod iddo) drwsio'r llwybr ond rhaid iddo ofalu nad yw'n ei wella (gan nad ei dir ef ydyw i'w ddatblygu). Felly, caiff perchennog y rhandir caeth roi graean newydd ar lwybr graean, ond ni chaiff ei ddatblygu drwy wella wyneb y llwybr.

## Sut y gellir newid hawl dramwy breifat?

Mae gan berchnogion **rhandir caeth yr hawl i ddatblygu eu tir eu hunain**, a gall hyn wrthdaro â budd gorredol y rhandir trech, h.y. yr hawl dramwy. Gan ystyried ffurfwedd tir y rhandir caeth, efallai y byddai'n bosibl ailddiffinio'r hawl dramwy ar hyd llwybr newydd. Rhaid dod i gytundeb â pherchennog neu berchnogion y rhandir(oedd) trech cyn y gall cyfreithiwr baratoi **Gweithred amrywio.**

Mae'n bosibl y byddai'n ddymunol dileu'r hawl dramwy yn gyfan gwbl. Unwaith eto, rhaid dod i gytundeb â pherchennog neu berchnogion y rhandir(oedd) trech. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n arferol i berchennog y rhandir caeth dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chreu hawl dramwy arall (dros dir trydydd parti) i'r rhandir(oedd) trech. Rhaid cael **Gweithred Dileu** i ffurfioli hynny.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am hawliau tramwy, cysylltwch â **Nia Seaton** (**nia.seaton@cymru.gov.uk**), Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau isod, cliciwch ddwywaith ar y lincs.

- Institute of Public Rights of Way and Access Management, ***FAQ*** (Saesneg yn unig)
- Cymdeithas y Cerddwyr, ***The Blue Book Extra*** (Saesneg yn unig)
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ***Arweiniad i Fapiau Diffiniol a Newidiadau i Hawliau Tramwy Cyhoeddus***

Gallwch weld rhestr lawn o'n **hysbysiadau hwylus** yma.

**MRS 11/0550 Victoria Paris**

**Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at MembersLibrary@wales.gov.uk.**

[18] Wedi'i nodi yn y Gofrestr Teitlau a'r Cynlluniau Teitl.